

Astudiaeth achos Ffrwythau Meddal – Ebrill 2020

TAFLEN GWYBODAETH

Mafon a Ffrwythau Cansenni

Mae llawer o dyfwyr eisoes wedi symud neu'n ystyried symud oddi wrth gynhyrchu mafon mewn pridd i ddefnyddio cansenni hir a dyfir mewn potiau â swbstrad. Gall defnyddio'r planhigion yma sydd wedi cael eu storio'n oer fod yn ffordd o amseru plannu ar wahanol adegau yn yr awyr agored neu o dan bolythen. Trwy ddefnyddio un neu fwy o amrywogaethau mafon sy'n dwyn ffrwyth yn yr haf (*floricane*), mae hyn yn sicrhau cynhyrchu ffrwythau dros gyfnod cynaeafu llawer hwy na fyddai'n bosibl fel arfer. Pan fydd tŷ gwydr neu dwnnel polythen ar gael i warchod rhai o'r planhigion a blannwyd yn eu tro, gallai fod modd cael planhigion sy'n dwyn ffrwyth o ganol i ddiwedd mis Mai hyd at ddiwedd mis Medi i ddechrau mis Hydref.

Pan ddefnyddir cansenni hir a dyfir mewn pridd neu mewn potiau i gynhyrchu ffrwythau, fe'u rhoddir mewn storfa oer ym mis Tachwedd neu fis Rhagfyr pan fydd y *primocane* (cansenni nad ydynt yn dwyn ffrwyth) wedi cwblhau eu tyfiant llystyfiannol ac mae'r dyddiau byrrach a'r tymheredd oerach yn golygu bod blagur yn dechrau datblygu. Mae'r planhigion yn aros mewn storfa oer nes bod y gofyniad oeri wedi'i fodloni a'i fod yn amser i'w plannu. Bydd union ddyddiad dechrau cynaeafu eto yn dibynnu ar yr amrywogaeth, faint o oeri y mae'r planhigion wedi'i gael, y tymheredd ar ôl iddynt adael y storfa oer a hyd y dyddiau. Felly bydd planhigion sy'n cael eu plannu'n gynnar h.y. ddiwedd Chwefror-Mawrth, ac ym mis Gorffennaf, yn dwyn ffrwyth yn hwyrach na'r rheini sy'n cael eu plannu ym mis Mai.

Mae'n well defnyddio mafon cansenni hir sy'n dwyn ffrwyth yn yr haf, ac sydd wedi cael eu tyfu mewn potiau swbstrad, ar gyfer cynydu a dyfir mewn potiau o swbstrad yn hytrach nag mewn pridd, oherwydd bydd planhigion a gynhyrchir o'r math hwn o ddeunydd ond yn para am flwyddyn, neu ddwy ar y mwyaf, fel arfer. Mae'r rhan fwyaf o gyltifarau yn cynhyrchu braidd dim neu *primocane* gwan yn ystod ail flwyddyn gnydio. Os bydd y planhigion yn cael eu cynaeafu unwaith, yna gellir defnyddio pot 7.5 L, os am 2-3 blynedd, yna defnyddir potiau 10 neu 12 L. Mae rhai tyfwyr yn defnyddio 2 blanhigyn mewn pot 10 neu 12 L ar gyfer planhigion a fydd yn cynhyrchu cynydu am ddwy flynedd.

Yn fwy diweddar, mae rhai lluosogwyr planhigion cansenni hir wedi symud i gynhyrchu un planhigyn cansen hir mewn pot 5 neu 7.5 L; nid yw'r planhigion hyn yn cael eu potio eilwaith. Ar ôl i'r compost o amgylch gwreiddiau'r planhigion a fu mewn storfa oer ddadmer yn llwyr, mae'r planhigion cansenni hir yn cael eu gosod yn eu safle dwyn ffrwyth, caiff y cansenni eu clymu wrth y dellt cynhaliol â chortyn neu gliplau plastig a'r diferwyr dyfrhau eu gosod ar/mewn compost pob pot.

Mae'r planhigion hyn yn addas ar gyfer cynhyrchu un cnwd yn unig; ar ôl eu cynaeafu, mae'r planhigion yn cael eu gadael i wywo a marw. Mae cost, a rhaglen rheoli plâu a chlefydau'r planhigion un cnwd hyn lawer yn llai. Gellir defnyddio carfentrazone ethyl (Shark EAMU 0622/19) wedi'i dargedu i gael gwared ar dyfiant cyntaf, ail dyfiant ac weithiau trydydd tyfiant *primocane*, ac amseru pob defnydd ohono i gyd-daro â phan fydd y ***primocane* talaf sy'n bresennol o amgylch y *floricane* yn y potiau heb fod yn fwy nag 20cm o uchder**. Nid oes angen chwistrellu i reoli gwybed cansenni mafon na chlwy cansenni. Sylwer, fodd bynnag, fod rhaid aros 21 diwrnod ar ôl defnyddio Shark cyn cynaeafu; uchafswm defnydd yw 800 mL o'r cynnyrch am bob hectar a drinnir, ond os y'i defnyddir ar yr adeg iawn, dim ond 400 neu ar y mwyaf 500 mL/ha fydd ei angen. Mae'n gyflymach ac yn haws cynaeafu'r ffrwythau (yn enwedig i gwsmeriaid 'casglu eich hunain') gan nad oes *primocane* yn bresennol i guddio'r ffrwythau.

Yn achos planhigion a dyfir dan orchudd twneli neu mewn tai gwydr wedi'u hawyru'n dda, mae'n bosibl na fydd angen defnyddio ffwngladdwri reoli pydredd llwyd neu gawod goch mafon ac mae'n bosibl mai dim ond chwistrellu i gael gwared ar lwydni powdrog fydd ei angen os gwyddys bod yr amrywogaeth yn arbennig o agored e.e. Glen Ample.

Sefydlu a Gofalu am Blanhigfeydd

Mae'n hanfodol trin y planhigion â gofal mawr pan fyddant yn cyrraedd y fferm. Rhowch nhw dan orchudd yn y cysgod, ond nid mewn storfa oer, am sawl diwrnod (dros wythnos, efallai, i'r rhai fydd yn cael eu plannu'n gynnar) i roi amser i'r compost ddadmer. Rhowch nhw yn y cae pan fo'r tywydd yn glaeaf, ac os yw'n bosibl, yn llonydd neu pan fo awel ysgafn gynnes. Ar gyfer planhigion sydd i'w plannu ddiwedd gwanwyn-haf, mae'n bosibl y bydd angen chwistrellu dŵr yn ysgafn dros y rhesi planhigion bob ychydig oriau am ychydig ddyddiau i leddfu straen gwres ac atal gormod o leithder rhag anweddu o'r cansenni a'r blagur sy'n datblygu. Wrth osod y planhigion allan neu eu potio, dylech gymryd gofal er mwyn osgoi datgysylltu neu ddifrodi'r blagur ffrwythau, a pheidiwch â mynd â gormod o blanhigion allan i'r cae ar un tro er mwyn osgoi dod â nhw i gysylltiad â'r gwynt a'r haul.

Sicrhewch fod cansenni newydd wedi'u clymu'n dynn i osgoi difrod i'r gwreiddiau, a bod planhigion newydd sydd i'w plannu wedi dadmer yn llwyr i osgoi unrhyw straen dŵr pan fyddant newydd eu plannu. Os byddant yn cael eu tyfu dan orchudd, mae'n debygol y bydd angen gosod cynalyddion ar blanhigion cansenni hir un cnwd a dau gnwd a dyfir mewn potiau i atal y canghennau ochrol sy'n dwyn ffrwyth rhag plygu drosodd dan bwysau'r ffrwythau. Bydd angen gwneud hyn gyda Glen Ample a Tulameen, ond ni fydd angen ei wneud gyda rhai cylviferau eraill y mae eu canghennau ochrol yn fyr ac yn gryf e.e. Squamish.

Os mai'r penderfyniad yw cynhyrchu cynydu o gansenni hir mewn swbstrad, mae'n hanfodol cynllunio ymhell ymlaen llaw a chysylltu'n agos â'r lluosogwr planhigion fel eu bod yn cynhyrchu planhigion o'r ansawdd sydd ei angen arnoch. Bydd angen gwirio bod cyflenwad dŵr digonol, glân a dibynadwy ar gael i'r planhigion cyn gynted ag y byddant yn cael eu gosod yn eu safle cynyddio hyd at ddiwedd eu cynaeafu. Mae'r gallu i hylif-fwydo'r cnwd hefyd yn hanfodol, yn enwedig os bydd y planhigion yn eu lle am ddwy neu dair blynedd. Sicrhewch fod dargludedd y compost a'r bwyd yn cael ei archwilio'n rheolaidd er mwyn osgoi difrod i wreiddiau'r cnwd neu'r deiliach.

Monitro a Rheoli Plâu

Mae'n bosibl mai gwiddon coch, llyslau a chwilod mafon mafon sy'n dwyn ffrwyth yn yr haf fydd yr unig rai y angen eu rheoli. Dylai dulliau rheoli fod yn seiliedig ar archwilio dail, blodau a ffrwythau yn rheolaidd. Yn chwilod mafon, argymhellir gosod trapiau twndis i fonitro'r boblogaeth.

Gellir defnyddio *Phytoseiulus persimilis* fel dull biolegol effeithiol o reoli gwiddon coch. Gellir cyflwyno 10/m² i ddechrau a dylent fod yn hunangynhaliol ar ôl ymsefydlu. Dylid archwilio planhigion sydd wedi ymsefydlu (sy'n cael eu cadw am ail neu drydydd tymor cynyddio) am arwyddion o ddifrod gan widdon gwinwydd, megis *floricane* nad yw'n blaguro, neu blanhigion y gellir eu tynnu o'r compost yn hawdd.



gyda
bydd
achos

Gwybed Cansenni Mafon

Bydd angen gadael o leiaf rhywfaint o *primocane* lle mae planhigion yn mynd i gael eu cario drwodd. Bydd y cansenni hyn yn y rhan fwyaf o achosion yn agored i ddifrod gan wybed cansenni mafon a gwybed dail mwyar duon. Bydd angen gosod trapiau fferomon ar gyfer y plâu hyn yn y blanhigfa 1-1.6 m uwchlaw'r ddaear o ddechrau mis Ebrill ymlaen i ganfod pryd mae'r genhedlaeth gyntaf o wybed wedi codi o'r pridd, ac a oes angen chwistrellu i'w rheoli, ac os felly pryd. Bydd ddefnyddio trapiau yn caniatáu i chi benderfynu a yw'r niferoedd yn ddigon uchel i gyfiawnhau defnyddio pryfladdwr; ar hyn o bryd, ystyrir bod dal 30 o wybed gwrywaidd llawn dwf mewn trap mewn wythnos yn drothwy i ddechrau chwistrellu, fodd bynnag, efallai y bydd angen i'r trothwy gwirioneddol fod yn is lle bydd rhisgl y *primocane* yn hollti'n rhwydd neu wedi hollti'n barod.

Pan fydd cansenni hir yn cael eu plannu'n gynnar (Mawrth neu Ebrill) efallai byddai modd, lle mae'n hysbys bod yr amrywogaeth yn ddarparwr egniol a thoreithiog o *primocane* (e.e. Glen Ample), tynnu'r tyfiant cyntaf o

primocane o leiaf gan ddefnyddio Shark, gan adael rhan o'r ail dyfiant i gario drwodd i gnydio'r haf canlynol.

Phytophthora

Mae'r rhan fwyaf o gyltffarau mafon yn agored i *Phytophthora rubi*. Heblaw am ar gyfer y planhigion cynharaf a blannir, nid yw llawer o dyfwyr yn gallu defnyddio Paraat neu SL567A i reoli pydredd gwreiddiau mewn planhigion cansenni hir awyr agored neu dan orchudd gan nad oes digon o amser rhwng gosod y planhigion a dechrau eu cynaeafu. Rhaid aros tri mis ar ôl defnyddio metalaxyl-M h.y. SL567A (EAMU 2195/07) a dimethomorph (Paraat) cyn cynaeafu, felly rhaid eu defnyddio cyn bo hir.

Asesu Clefydau Floricane

Mae hwn yn adeg ddelfrydol o'r flwyddyn i asesu *floricane* planhigion mafon a fydd yn dwyn ffrwyth yn yr haf, a *floricane* planhigion a gariwyd drwodd (gwnaeth ddwyn ffrwyth ddiwedd y gwanwyn/ dechrau'r haf) a fydd yn dwyn ffrwyth yn yr hydref, am bresenoldeb clefydau ffwngaidd sydd wedi byw dros y gaeaf h.y. pydredd llwyd, clwy sbardunau a brychni coesau.

Pydredd Llwyd

Briwiau arian/gwyn hir o amgylch y blagur ac yn ymestyn rhwng y blagur. Yn aml, mae ffrwythgyrff du (siâp crwn neu hirgrwn) i'w gweld ar y briwiau hyn, ynghyd â phatrymau cylchoedd consentrig.

Clwy sbardunau

Briwiau llwyd golau o amgylch blagur unigol. Mae'r lliw llwyd wedi'i fritho â chyrrff sborau du bychain.

Brychni coesau

Smotiau suddedig ag iddynt ymylon llwyd yn rhisgl y gansen. Lle mae nifer fawr o smotiau yn bresennol, mae'n bosibl y byddant wedi uno a gallai fod arwyddion o hollti.

Mefus

Wrth i'r tywydd ddechrau cynhesu, nawr yw'r amser i ddechrau edrych ar eich mefus a gwirio eu cyflwr cyn i'r tymor ddechrau. Ewch i fan uchel ac edrych dros eich holl gnydau – edrychwch am liw gwyrdd iach, unffurf ac archwiliwch am unrhyw ddarnau sych. Dylech hefyd wirio'ch diferwyr i wneud yn siŵr nad oes yr un ohonynt wedi'u blocio, a dylech ddechrau monitro dargludedd trydanol eich dŵr porthiant a'ch dŵr ffo bob dydd. Wrth i chi ddechrau porthi, bydd y dŵr yn y slabiau yn cael ei ddadleoli, felly dylech weld cynnydd cyson yn y dargludedd trydanol – dylech fod yn edrych ar 1.5 m/s (neu 1500 μ /s) yn y dŵr ffo, ac yn sicr uwchlaw 1 m/s. Dylech geisio cofnodi hyn yn aml i olrhain newidiadau dros amser. Os yw cnydau wedi bod yn y ddaear dros y gaeaf, dylid eu codi a'u rhoi ar fyrdau. Gwiriwch am larfâu gwiddon gwinwydd, a'u trin gyda drensh nematod os oes angen.



Rheoli Plâu a Chlefydau

Dechreuwch feddwl am eich strategaeth rheoli plâu a chlefydau.

Mae chwistrellu effeithiol a dechrau cynnar i chwistrellu wythnosol rheolaidd yn allweddol. Mae chwistrellu cyn bod y canopi wedi datblygu yn gallu gwella effeithiolrwydd hefyd. Efallai y byddwch am ystyried chwistrellu ataliol (e.e. Charm a Luna Sensation), ond gwiriwch am gymysgedd o godau FRAC i atal ymwrthedd rhag datblygu, a byddwch yn ymwybodol o uchafswm nifer y weithiau y caniateir triniaeth mewn tymor a pha mor hir mae'n rhaid aros cyn cynaeafu ar ôl triniaeth.

Llwydni Powdrog

Cadwch lygad am arwyddion o gyrlio dail yn eich cnwd, gan y gallai hyn fod yn arwydd cynnar o lwydni powdrog, ac mae arwyddion cynnar yn ymddangos yn Elegance, Elsanta, Centenary, Vibrant a Flair. Mae risg uwch o lwydni powdrog gyda mwy o leithder wrth i dwneli ddechrau sychu o'r gaeaf, neu mewn twneli sydd â glaswellt tal o dan feinciau – gallwch losgi'r glaswellt trwy eu chwistrellu â Roundup, ond dim ond os nad yw'r plastig wedi'i roi ymlaen eto. Dylech ddechrau chwistrellu i atal llwydni powdrog nawr i sicrhau rheolaeth gadarn yn ddiweddarach. Mae Systhane yn ddewis da, ac mae Talius ar gael o dan EAMU (0210/17); dylid

chwistrellu'r planhigion bob pythefnos neu dair wythnos, er y gallwch gynyddu hyn os yw'r clefyd yn wael, ac o fewn wythnos o'r plannu cyntaf. Os bydd y llwydni wedi ymledu'n helaeth, gellir trin hyn gyda chwistrell adferol o sodiwm deucarbonad.



Mae dail yn dangos cwpanu nodweddiadol sy'n gysylltiedig ag arwyddion cynnar o lwydni powdrog

Llyslau

Dylech archwilio'n rheolaidd am lyslau. Mewn planhigion sydd wedi'u gaeafu, byddant yn ymgasglu yn y canol – cadwch lygad am blanhigion wedi'u cyrlio fel rhybudd cynnar. Gall Batavia fod yn ddewis effeithiol (spirotramat 100g/L, uchafswm o 1L/ha), er na ellir ei ddefnyddio yn hwyrach na 14 diwrnod cyn blodeuo, a gellir ei ddefnyddio ddwywaith y flwyddyn yn unig. Dywedir ei fod yn ddiogel ar gyfer pryfed buddiol, yn wahanol i gynhyrchion eraill megis Hallmark. Rheolaeth fiolegol yw'r dull rheoli mwyaf effeithiol (e.e. drwy ddefnyddio *Aphidius*), a gallwch ddefnyddio'r rhain wrth i'r tywydd gynhesu.



Gwiddon

Dylech hefyd gadw llygad am widdon ar gefn dail, yn enwedig ar ddail hŷn, gan ddefnyddio lens llaw. Bydd gwiddon sy'n deffro o'u gaeafgwsg yn lliw coch brics a gallant fod yn anodd eu rheoli, felly mae'n well targedu wyau a'r rhai mudol ifanc. Mae gwiddonladdwyr ar gael h.y. Envidor (EAMU 1600/17) ac Apollo 50SC (clofentazine) y gellir eu defnyddio i'w rheoli'n gynnar; fodd bynnag, cyn eu defnyddio, dylech edrych ar ganllawiau EAMU 0620/18, gan fod cyfyngiadau penodol o ran eu defnyddio a'r cyfnod cyn cynaeafu. Defnyddio *Phytoseiulus* yw'r dull rheoli mwyaf effeithiol, felly dylech geisio cael y rhain i ymsefydlu yn eich cnwd wrth i'r tywydd gynhesu tuag at fis Mai.



Pydredd y Corun a Chraidd Coch

Mae pydredd y corun yn fwy o bryder mewn cnydau sydd newydd eu plannu. Archwiliwch blanhigion newydd am liw oren llachar yn y corun cyn eu plannu. Dylech hefyd agor slabiau o bryd i'w gilydd i wirio bod y gwreiddiau yn lliw gwyn cryf. Dim ond fel drensh y gellir defnyddio Paraat, ond rhaid aros 35 diwrnod ar ôl ei ddefnyddio cyn cynaeafu. Gall ffosffitau hefyd atal lledaeniad (e.e. Hortiphyte).

Rheoli Chwyn

Archwiliwch am chwyn yn gynnar mewn cnydau wedi'u plannu mewn cae, oherwydd bydd y rhain yn anoddach eu rheoli yn nes ymlaen. Wrth i gnydau mewn pridd ddechrau dod i'r wyneb, mae cynhyrchion cysgiad megis Stomp, Wing P a Shark yn debygol o losgi'r cnwd. Fodd bynnag, gellir defnyddio Wing P yn gynnar yn y tymor yn syth ar ôl plannu cnwd newydd i reoli chwyn newydd. Gellir defnyddio Centurion Max ar gyfer chwyn glaswellt e.e. marchwellt, gweunwellt unflwydd o dan EAMU (3640/19), ond mae angen ei ddefnyddio cyn i'r planhigion flodeuo. Gall hyn losgi'r cnwd ychydig, ond mae ei ddefnyddio'n gynnar yn osgoi difrod i'r blodau/ ffrwythau, ac ni fydd yn effeithio ar y cnwd oni bai ei fod yn wan iawn i ddechrau. Gellir defnyddio Dow Shield ar lawer o chwyn, ac mae'n gweithio orau pan fydd y tywydd yn gynnes (yn wahanol i weddillion megis Wing P), ac ar ôl hynny, gellir ychwanegu Dual Gold cyn iddynt flodeuo.

Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a'r argymhellion yn y nodiadau hyn yn gywir Bob tro y byddwch yn defnyddio cemegion diogelu cnydau, dylech wneud hynny yn unol â'r argymhellion sydd wedi'u nodi ar y label, a dylech

ddarllen yr argymhellion hynny cyn chwistrellu. Efallai na fydd rhai o'r plaladdwyr a grybwyllir yn y nodiadau hyn yn cael eu cefnogi gan argymhellion y label i'w defnyddio ar gnydau pwmpenni ond fe'u caniateir drwy'r Estyniad o Ganiatâd ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMU) yn y DU o dan 'Y Trefniadau Hirdymor Diwygiedig ar gyfer Ymestyn Defnydd (2002)'. Yn yr achosion hyn, ar gyfrifoldeb y defnyddiwr ei hun y mae defnyddio'r plaladdwyr. Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar labeli ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwyr ar gnydau pwmpenni yn gywir adeg ysgrifennu'r wybodaeth hon. Gall y rhain gael eu newid a gallai cymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaethau cyn defnyddio plaladdwr. Os oes unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr ofyn am gyngor gan gynghorydd BASIS cymwysedig.